

Cardiff Met
MetCaerdydd

2026

Welcome week
Wythnos groeso



MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol (Ilwybr Rheoli Cyhoeddus)

Amserlen yr Wythnos Groeso

1. Dydd Llun 21 Medi 2026

Defnyddiwch yr amser sydd gennych heddiw i sicrhau eich bod wedi cofrestru'n llawn ar y cwrs a'ch bod yn gallu mewngofnodi i gyfrif y Brifysgol a chael mynediad i'ch cyfeiriad e-bost a Moodle (platform dysgu ar-lein). Anfonwch e-bost at y Ddesg Gymorth TG os oes gennych ymholiadau sy'n ymwneud â TG ithelpdesk@cardiffmet.ac.uk

Ar ôl cofrestru, cliciwch ar y dolenni canlynol lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth hanfodol a all eich helpu i ymgartrefu i'w bywyd fel myfyriwr ym Met Caerdydd:

- Dolen i [MetCanolog - Hafan Myfyrwyr](#)
- Dolen i'r [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)
- Dolen i [Gyngor a Chymorth Undeb y Myfyrwyr](#) (Cymorth Academaidd, Tai a Bugeiliol)
- Dolen i [Fyfyrwyr Rhyngwladol Newydd | Prifysgol Metropolitan Caerdydd](#)
- Dolen i [fyfyrwyr newydd Met Caerdydd](#)

Ar ôl i chi gwblhau'r tasgau uchod, lawrlwythwch **Microsoft Teams** sy'n offeryn defnyddiol ar gyfer eich astudiaethau – gallwch wneud hyn drwy'r ddefnyddio'r ddolen hon - [Cliciwch yma](#) . Am hyfforddiant fideo Microsoft Teams ar-lein - [Cliciwch yma](#)

Yn olaf, cwblhewch y **sesiwn sefydlu Sgiliau Digidol** orfodol heddiw. Byddwch yn ennill y sgiliau digidol craidd sydd eu hangen arnoch i astudio ym Met Caerdydd ar ôl cwblhau'r sesiwn sefydlu hon. [Cliciwch yma](#) i ddechrau. Mae angen cynnwys tystiolaeth eich bod wedi'i gwblhau yn Asesiad PDP 1 MSM7043.

2. Dydd Mawrth 22 Medi 2026

9.00-10.00 Cwrdd â Phennaeth yr Adran a'ch Cyfarwyddwr Rhaglen (**Ystafell D106**).

Croeso a sesiwn gyflwyno'r cwrs. Bydd cynnwys cyflwyniad y cwrs hefyd yn canolbwyntio ar addasu i fywyd prifysgol yn y DU, addasiadau diwylliannol, moesau proffesiynol a rheoli disgwyliadau.

10.00-11.00 Cwrdd â thîm eich rhaglen (**Ystafell D106**)

Dewch i gwrdd â'ch darlithwyr a darganfod pwy ydyn nhw, beth maen nhw'n ei ddysgu, a'r modiwlau y byddwch chi'n eu hastudio. Mae mynychu'r sesiwn hon yn hanfodol er mwyn dewis eich modiwl dewisol.

11.00-12.00 Sesiwn torri'r garw, dechrau'r gweithgareddau sefydlu, a chynllun yr wythnos (**Ystafell D106**)

Mae hon yn sesiwn berffaith i chi gwrdd â'ch cyd-fyfyrwyr, dod i adnabod eich gilydd a gweithio ar weithgaredd grŵp.

12.00-13.00 Egwyl Ginio

13.00-14.00 Astudio ar Lefel Ôl-raddedig - Sut i fod yn fyfyrwr meistr llwyddiannus (**Ystafell D106**)

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar set sgiliau a disgwyliadau'r MSc Astudiaethau Ôl-raddedig, sut i fod yn ddyfeisgar ac yn ymarferol, rhai ffeithiau sylfaenol, ymgorffori cynllunio ymlaen llaw i'r ffordd rydych chi'n astudio ac yn dysgu, sut i ymgysylltu'n effeithiol â'ch hastudiaethau.

14.00-15.00 Cyflwyno [Undeb y Myfyrwyr](#) a chwedd â chynrychiolwyr y myfyrwyr (**Ystafell D106**)

Cwrdd â chynrychiolwyr y myfyrwyr a chyfoedion i glywed eu cyngor a'u hawgrymiadau ar sut i lywio'ch astudiaethau,

3. Dydd Mercher 23 Medi 2026

10.30-17.00 [Ffair y Glas Undeb Myfyrwyr](#) (Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol, Campws Cyncoed)

Gweler gwybodaeth fanwl o wefan UM a mynnwch eich tocyn am ddim drwy glicio ar y ddolen uchod.



4. Dydd Iau 24 Medi 2026

9.00-9.30 Cyflwyno [Entrepreneuriaeth Met Caerdydd](#) (Ystafell D106)

9.30-10.00 [Cyfleoedd Byd-eang](#) (Ystafell D106)

Dewch i gwrdd â'n tîm Cyfleoedd Byd-eang i archwilio cyfleoedd ar gyfer astudio, gwirfoddoli a gweithio dramor .

10.00-10.30 Cyflwyniad i [Sgiliau Digidol](#) ar gyfer Astudio yn y Brifysgol (Ystafell D106)

Dewch i gwrdd â'n tîm Sgiliau Digidol. Gwiriwch a ydych chi wedi cwblhau'r sesiwn sefydlu Sgiliau Digidol. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny, [cliciwch yma](#) i ddechrau.

10.30-11.00 [Cynaliadwyedd Met Caerdydd](#) (Ystafell D106)

Archwiliwch beth allwch chi gymryd rhan ynddo gyda'n tîm cynaliadwyedd.

11.00-12.00 [Gyrfaedd a Chyflogadwyedd](#) (Ystafell D106)

Dewch i gwrdd â'ch ymgynghorydd gyrfaedd a darganfod beth allwch chi ei wneud i wella'ch sgiliau cyflogadwyedd.

12.00-13.00 Egwyl Ginio

13.00-14.00 Taith o amgylch y Campws (Cwrdd yn nerbynfa YRC am 12.55)

Archwiliwch gyfleusterau campws Llandaf a'n llyfrgell. Gallwch archwilio'r gwasanaethau a ddarperir gan ein llyfrgell drwy glicio ar dudalen we [Gwasanaethau'r Llyfrgell](#) .

Mae angen i chi gwblhau'r sesiwn sefydlu llyfrgell ar-lein orfodol. Gallwch gael mynediad at yr adnodd ar-lein hwn unrhyw bryd trwy ddefnyddio'ch ffôn clyfar, gliniadur, cyfrifiadur personol neu'r cyfrifiadur yn yr ystafell TG ar y campws. Gwylwch y fideos a darllenwch y cynnwys ar y dudalen we hon, [Cliciwch yma i ddechrau](#). Mae angen cynnwys tystiolaeth eich bod wedi'i gwblhau yn Asesiad 1 MSM7043. Mae'r cynnwys: ChwilioMet – ar gyfer adnoddau academiaidd - llyfrau, cyfnodolion, delweddau, fideos, adroddiadau, popeth! Eich cyfrif llyfrgell; Rhestrau darllen; Sgiliau academiaidd

14.00-15.00 Sgiliau Astudio ar lefel Ôl-raddedig a chwrdd â'r cynghorydd sgiliau academiaidd (Ystafell O023)

Byddwn yn canolbwyntio ar asesiadau ac adborth, Turnitin, cyfeirio ac osgoi llên-ladrad.

5. Dydd Gwener 25 Medi 2026

11.00-12.30 Gweithgaredday sefydlu'r cwrs MSc IBM - Canlyniadau (Ystafell O101)

Cyflwyniad grŵp o ganfyddiadau gweithgareddau cwrs.



Bydd sesiwn “*Unrhyw gwestiynau?*” yn dilyn hyn gyda’ch Cyfarwyddwr Rhaglen ac arweinydd y garfan. Defnyddiwch y cyfle hwn i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych cyn dechrau’r wythnos addysgu.

Noder:

1. Gall sesiynau/dyddiau/amseroedd newid, cael eu diwygio a'u diweddaru. Byddwn yn hysbysu myfyrwyr cyn gynted â phosibl os yw hyn yn wir.
2. Mynychwch/cwblhewch yr holl sesiynau sefydlu. Mae hyn er mwyn sicrhau eich bod chi'n deall yn glir sut i reoli eich astudiaethau a bod yn llwyddiannus.
3. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at eich Cyfarwyddwr Rhaglen, Dr Jun Zhang – jzhang@cardiffmet.ac.uk .

Argraffu a Chasglu eich CerdynMet

Mae gwybodaeth am eich CerdynMet ar gael drwy'r ddolen hon - [CerdynMet: Un cerdyn ar gyfer popeth](#)

Sesiynau Allgyrsiol

Mae yna lawer o sesiynau allgyrsiol ar yrfaeodd a chyflogadwyedd, sgiliau academaidd ac entrepreneuriaeth. Gallwch archebu'r sesiynau hyn drwy MetHub. Dyma'r ddolen - <https://methub.cardiffmet.ac.uk/students/events/Type/37/welcome-week>

Cymorth Llesiant

Gall staff Llesiant Myfyrwyr roi cefnogaeth i chi os ydych chi dan straen neu'n mynd yn llethol neu os oes gennych chi deimladau o bryder neu ofid.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Welcome week
Wythnos groeso

2026